Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Arweiniad atodol i arolygwyr annibynnol sy'n arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed

Mae'r arweiniad hwn yn egluro'r gofynion arolygu ac adrodd ar y plant dan bump oed.

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer arolygwyr cofrestredig, aelodau tîm a Chontractwyr.

Daw'r arweiniad hwn i rym ar 1 Medi 2004

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2004

Cyflwyniad

Cafwyd nifer o ymholiadau mewn cysylltiad â statws y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn y broses arolygu. Er bod yr arweiniad (tudalen 23) yn nodi y "Dylai arolygwyr adrodd yn llawn ar waith plant dan bump oed", bwriadwyd y datganiad hwn i sicrhau bod tystiolaeth ar wahân wedi'i chasglu am safonau ar gyfer plant tair a phedair oed.

Bydd pob arolygydd yn cofio inni bwysleisio, yn hyfforddiant diweddaru Estyn yn y Gwanwyn, y dylid trin y cwricwlwm ar gyfer plant dan bump oed fel un o'r chwe phwnc / maes mewn arolygiadau safonol a benderfynir gan Estyn.

Sylweddolwn fod rhywfaint o ddryswch o bosibl, a gobeithiwn y bydd y grid sydd wedi ei atodi yn egluro gofynion arolygu ac adrodd cyn belled ag y mae plant dan bump oed yn y cwestiwn.

Arolygu darpariaeth ar gyfer plant dan bump oed: Arweiniad i weithdrefnau

AROLYGIAD BYR	**AROLYGIAD SAFONOL (Lle <u>nad yw</u> plant dan bump oed yn un o'r chwe phwnc/maes dysgu i'w harolygu a'u penderfynu gan Estyn)**	**AROLYGIAD SAFONOL (Lle <u>mae</u> plant dan bump oed yn un o'r chwe phwnc/maes dysgu i'w harolygu a'u penderfynu gan Estyn**	**AROLYGIADAU LLAWN**
Rhaid i arolygwyr **adrodd** ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed . Byddant yn defnyddio un datganiad o dri (gweler isod)	Rhaid i arolygwyr **adrodd** ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed . Byddant yn defnyddio un datganiad o dri (gweler isod)	Rhaid i arolygwyr **adrodd** ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed. Bydd hyn yn cynnwys medrau allweddol a chanlyniadau dymunol. Byddant yn defnyddio un datganiad o dri (gweler isod)	Rhaid i arolygwyr **adrodd** ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed . Bydd hyn yn cynnwys medrau allweddol a chanlyniadau dymunol. Byddant yn defnyddio un datganiad o dri (gweler isod)
Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr yn gwneud sylwadau'n unig ar fedrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu plant.	**Yn ystod** yr arolygiad, mae arolygwyr yn gwneud sylwadau'n unig ar fedrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu plant.	**Yn ystod** yr arolygiad, mae arolygwyr yn gwneud sylwadau ar y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu **ac** yn eu medrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu.	**Yn ystod** yr arolygiad, mae arolygwyr yn gwneud sylwadau ar y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu **ac** yn eu medrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu.
Yn yr **adroddiad**, mae arolygwyr yn cynnwys sylwadau **yn unig** ar fedrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu plant ar wahân ar gyfer plant tair a phedair oed. Mewn arolygiad byr, mae'r elfen safonau	Yn yr **adroddiad**, mae arolygwyr yn cynnwys sylwadau **yn unig** ar fedrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu plant, ar wahân ar gyfer plant tair a phedair oed.	Yn yr **adroddiad**, mae arolygwyr yn cynnwys sylwadau **ar wahân** ar y safonau a gyflawnir gan blant Meithrin a Derbyn yn y chwe maes dysgu **ac** yn eu medrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu.	Yn yr **adroddiad**, mae arolygwyr yn cynnwys sylwadau **ar wahân** ar y safonau a gyflawnir gan blant Meithrin a Derbyn yn y chwe maes dysgu **ac** yn eu medrau allweddol, personol, cymdeithasol a dysgu.

yn gysylltiedig â medrau allweddol yn unig. Yn yr **adroddiad**, os byddwch yn gwneud un o'r datganiadau sy'n cynnwys cyfeiriadau at wendidau yn y ddarpariaeth addysgol, dylech gynnwys yr angen am welliannau yn yr Argymhellion.	Yn yr **adroddiad**, os byddwch yn gwneud un o'r datganiadau sy'n cynnwys cyfeiriadau at wendidau yn y ddarpariaeth addysgol, dylech gynnwys yr angen am welliannau yn yr Argymhellion.	Yn yr **adroddiad**, os byddwch yn gwneud un o'r datganiadau sy'n cynnwys cyfeiriadau at wendidau yn y ddarpariaeth addysgol, dylech gynnwys yr angen am welliannau yn yr Argymhellion.	Yn yr **adroddiad**, os byddwch yn gwneud un o'r datganiadau sy'n cynnwys cyfeiriadau at wendidau yn y ddarpariaeth addysgol, dylech gynnwys yr angen am welliannau yn yr Argymhellion.
Rhaid i chi gwblhau'r **proffil ysgol.**	Rhaid i chi gwblhau'r **proffil ysgol.**	Rhaid i chi gwblhau'r **proffil ysgol.** Rhaid i chi gwblhau **proffil pwnc** ar gyfer plant dan bump oed. Rhaid i chi gwblhau yn unig **un** proffil pwnc i ymdrin â'r chwe maes dysgu.	Rhaid i chi gwblhau'r **proffil ysgol.** Rhaid i chi gwblhau **proffil pwnc** ar gyfer plant dan bump oed. Rhaid i chi gwblhau yn unig **un** proffil pwnc i ymdrin â'r chwe maes dysgu.

Ym **mhob** arolygiad, rhaid i chi gynnwys datganiad am ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed. Rhaid i chi wneud un o'r datganiadau hyn:

- Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant;

- Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed, ond mae tystiolaeth y gellir cywiro'r gwendidau hyn yn fuan; neu

- Mae nifer fawr o wendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed, ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Rhaid i chi gynnwys y datganiad, yn gywir, yn y Crynodeb a gallwch ei gynnwys yn yr adrannau perthnasol yng Nghwestiynau Allweddol 1 a 3, a lle mae'n briodol mewn unrhyw adran ar blant dan bump oed. Os byddwch yn gwneud un o'r datganiadau sy'n cynnwys cyfeiriadau at wendidau yn y ddarpariaeth addysgol, dylech gynnwys yr angen am welliannau yn yr Argymhellion.

Gweler hefyd dudalennau 23 a 24 yr Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Cynradd a Meithrin (Medi 2004).

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am yr arweiniad hwn at Maggie Turford, AEM Rheoli Cynradd a Blynyddoedd Cynnar.